Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Saron

Saron
Rhydaman
SA18 3LH

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Saron

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Saron |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 220 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 168 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 22 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 10.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 3.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/09/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn, gan sicrhau ei bod yn lle cartrefol a hapus i ddisgyblion a staff. Un o nodweddion amlycaf yr ysgol yw'r ffordd y mae staff yn ymddiried yn y disgyblion ac yn rhoi cyfrifoldeb iddynt fentro wrth ddysgu heb ofni gwneud camgymeriadau. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl fedrau dysgu annibynnol da, ac maent yn ymddwyn yn barchus, caredig a chwrtais i'w gilydd.

Mae staff yn gwrando'n gyson ar ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned, ac maent yn gweithredu ar eu syniadau trwy addasu gweithdrefnau'r ysgol, lle bo'n briodol. Maent yn annog disgyblion i fod yn falch o'u Cymreictod, ac i fod yn barod i ddysgu heb ormod o gymorth gan oedolion.

Trwy ddarparu cwricwlwm diddorol, mae staff yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau dysgu wedi eu seilio ar syniadau'r disgyblion ac yn aml yn dechrau o safbwynt yr ardal leol, cyn sôn am Gymru, ac yna'r byd ehangach. Mae disgyblion yn cael nifer o gyfleoedd i arwain yn yr ysgol ac i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yno. Mae hyn yn meithrin eu medrau arwain a'u hannibyniaeth yn fedrus.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn disgwyl i ddisgyblion wneud gwaith da yn yr ysgol. Trwy eu harsylwi yn dysgu ac olrhain eu cynnydd, mae staff yn gwybod beth yw'r camau nesaf yn natblygiad y disgyblion. Mae hyn yn galluogi bron bob un disgybl, gan gynnwys y rheini y mae tlodi'n effeithio arnynt a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan staff rolau clir sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau arwain staff ar bob lefel ymhellach er mwyn gwella'r ysgol yn barhaus. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol, a'r hyn sydd angen ei wella. Mae hyn yn eu galluogi i bennu blaenoriaethau addas ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella.

A1. Parhau i ddatblygu medrau arwain staff ar bob lefel i’w galluogi i gynorthwyo arweinwyr i wella’r ysgol yn barhaus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol gan ddatblygu diwylliant arloesol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol cadarn iddi. Mae'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella lles a dysgu'r disgyblion a sicrhau bod bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae tlodi'n effeithio arnynt a'r rheini sydd ag ADY. Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn seiliedig ar ei harwyddair, sef: 'Gorau dysgu, Cyd ddysgu'.

Mae arweinwyr yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Un o nodweddion amlycaf yr ysgol yw'r ffordd y mae'r pennaeth yn annog staff i ymddiried yn y disgyblion a rhoi cyfrifoldeb iddynt gydweithio'n barhaus wrth ddysgu a mentro heb ofni gwneud camgymeriadau. O ganlyniad, erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr gweithgar ac uchelgeisiol, sy'n dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.

### Ciplun 1 – datblygu annibyniaeth disgyblion

Trwy gynllunio profiadau ysgogol ac adeiladol i ddisgyblion, mae staff yn ymddiried ynddynt o oedran cynnar i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwriadus sy'n eu galluogi i ddarparu gweithgareddau uchelgeisiol ar eu cyfer. Trwy hyn, mae disgyblion yn meithrin eu medrau yn hyderus gan wybod bod ymddiriedaeth staff yn eu galluogi i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae arweinwyr yn gwrando'n gyson ar syniadau disgyblion. Maent hefyd yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned leol ac yn addasu'r ddarpariaeth, lle bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac amserol i ddysgu'r disgyblion. Mae annog Cymreictod, annibyniaeth a pharch ymysg disgyblion yn eu cefnogi i fod yn ddysgwyr aeddfed, ac yn unigolion egwyddorol ac iach sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u diwylliant Cymreig.

Mae arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae'r prosesau monitro a hunanwerthuso yn gadarn a llwyddiannus, ac yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol yr ysgol yn glir. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i bennu blaenoriaethau priodol ac amserol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, fel wrth gysgodi meysydd dysgu a phrofiad penodol. Trwy hyn, maent yn deall yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar les, dysgu ac annibyniaeth disgyblion. Maent bob amser yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol wrth ddatblygu'r ysgol ymhellach, fel mynd i'r afael ag effaith tlodi a datblygu'r Gymraeg. Mae gan staff rolau clir sy'n eu galluogi

i ddiwallu anghenion disgyblion yn dda. Yn sgil penodiad diweddar y pennaeth, a'r angen i ail ddosbarthu rolau staff, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i gefnogi staff ar bob lefel i ddatblygu eu medrau arwain ymhellach er mwyn gwella'r ysgol yn barhaus.

Mae staff yn cydweithio'n hynod lwyddiannus i ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm diddorol a chynhwysfawr i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar syniadau disgyblion, gwerthoedd y tymor ac ar ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes, diwylliant ac amrywiaeth o safbwynt eu hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach. Mae athrawon yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn hynod lwyddiannus. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn garedig tuag at ei gilydd, ac yn dangos empathi, cwrteisi a pharch at eraill.

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n cyfateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblon. Mae disgyblion yn gwrando'n astud yn ac yn ymateb yn hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y ddwy iaith, lle bo'n briodol. Maent yn darllen i safon sydd o leiaf yn addas ar gyfer eu hoed a'u cam datblygu. Mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol ac maent yn eu cymhwyso'n hyderus mewn gweithgareddau rhifedd amrywiol ar draws y cwricwlwm. Maent yn meithrin medrau digidol da o oedran ifanc, gan arddangos gallu cynyddol i'w cymhwyso'n hyderus mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd 'go iawn'. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad ag oriel gelf, mae'r disgyblion hŷn yn efelychu gwaith gwahanol artistiaid yn effeithiol. Yna, maent yn trefnu arddangosfa o'u gwaith ar gyfer eu rhieni a'r llywodraethwyr. Maent yn ymchwilio i gost fframiau cyn cyfrifo pris rhesymol i werthu eu cynnyrch i'w rhieni. Maent yn ysgrifennu gwahoddiadau ac yn dylunio tocynnau ar gyfer yr achlysur, ac yn defnyddio'u medrau codio i greu dyfais electronig er mwyn cyfri cyfanswm yr ymwelwyr i'r arddangosfa.

Mae amgylchedd yr ysgol yn hynod ysgogol ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddysgu mewn amrywiol fannau.

### Ciplun 2 – y defnydd o'r amgylchedd i hyrwyddo dysgu

Mae staff yn darparu amgylchedd naturiol sy'n meithrin chwilfrydedd a brwdfrydedd disgyblion tuag at ddysgu trwy ddyluniad creadigol yr ystafelloedd dosbarth, defnydd crefftus o'r ardaloedd dysgu allanol a thrwy ddarparu adnoddau sy'n fuddiol i ddysgu'r disgyblion. Mae'r amgylchedd cynhwysol yn cefnogi disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu, rheoli emosiynau a datblygu gwydnwch mewn mannau tawel a chartrefol.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn defnyddio dulliau holi medrus i gefnogi'r dysgu. Maent yn sicrhau bod eu haddysgu yn symud y dysgu yn ei flaen ar y cyflymdra addas ac yn cyflwyno'r her briodol a'r cymorth perthnasol i ddisgyblion.

Trwy eu harsylwi wrth eu tasgau ac olrhain eu cynnydd yn ofalus, mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'r cam dysgu nesaf yn nysgu'r disgyblion ac maent yn sicrhau eu bod yn darparu'r cyfle iddynt gymryd y cam hwnnw. Mae hyn yn galluogi bron bob disgybl i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion feithrin eu medrau arwain trwy gyfrwng amrywiol bwyllgorau, ac mae eu llais yn ganolog i fywyd yr ysgol. Mae eu cyfranogiad mewn grwpiau fel 'Senedd Saron' a'r pwyllgor eco yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau pwysig, fel lleihau gwastraff llaeth a monitro cyflymder cerbydau y tu allan i safle'r ysgol. Trwy feithrin eu medrau arwain a'u hannibyniaeth, mae staff yn paratoi disgyblion yn arbennig o dda ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2025